DAN DO MÔN

Cylchlythyr i fudiadau gwirfoddol Ynys Môn
Rhif Elusen 1088828 Rhif Cwmni 4197934 Rhifyn 90 Tachwedd 2011

Swyddogion Newydd i Fwrdd Medrwn Môn

Yn ystod cyfarfod Bwrdd Rheoli Medrwn Môn a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2011 etholwyd y swyddogion canlynol:

Cadeirydd: Dilys Shaw
Is-gadeirydd: Islwyn Humphries
Trysorydd: Eiluned Ann Thomas

Diolchwyd i'r cyn swyddogion i gyd am eu hymroddiad, diddordeb, a'u cefnogaeth yn rhan o dîm y sector wirfoddol ar Ynys Môn.

Robert Wyn Jones

Derbyniodd dau wirfoddolwr Car Linc Môn Dystysgrif Cymeradwyaeth gan yr Athro Robin Grove-White, Uchel Siryf Ynys Môn a Gwynedd. Cyflwynwyd y tystysgrifau i'r ddau i gydnabod sawl blwyddyn o wasanaeth gwerthfawr fel gwirfoddolwr hefo Car Linc Môn.
O'r 15 gyrwyr gwirfoddol, ymroddgar, y ddau yma gyflawnodd y mwyaf o siwrneau yn 2010 – 2011.

Robin Grove-White ac Arthur Williams

Bydd **swyddfa Medrwn Môn** yn cau dros y Nadolig am 5pm dydd Iau, 22 Rhagfyr 2011 ac yn ail-agor ddydd Mawrth, 3 Ionawr 2012. Dymuna ymddiriedolwyr a staff Medrwn Môn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Dan Do Môn a MônGwirfodd.

Nid yw'n anorfod mai barn Medrwn Môn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn. Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi. Dyluniwyd a dosbarthwyd y cylchlythyr hwn gan Medrwn Môn.

GWYBODAETH

Strategaeth Gymunedol Ynys Môn Ein Hynys – Ein Dyfodol 2012 – 2025



Tros y misoedd diwethaf mae'r Cyngor a'i bartneriaid allweddol ar y Bwrdd Gwasanaeth Lleol wedi bod yn cyfarfod i geisio llunio blaenoriaethau i'r Ynys ar gyfer y dyfodol.
Mae angen sicrhau fod y ddogfen ymgynghorol sy'n deillio o'r trafodaethau hyn yn adlewyrchu dyheadau pobl Ynys Môn o bob oed a chefndir. Ceir mynediad i'r ddogfen ymgynghorol ar y ddolen gyswllt ganlynol: www.ynysmon.gov.uk/strategaethgymunedol

Mae gennych tan 23 Rhagfyr, 2011 i roi eich sylwadau.

Cronfa Gymunedol MônMedrwn 2011 - 2012

Cynhaliwyd rownd gyntaf ac ail o **Gronfa Gymunedol Medrwn Môn 2011 - 2012,** er hynny, mae ychydig o gyllid yn dal ar gael ar gyfer **trydydd rownd gyda dyddiad cau o 31 Rhagfyr 2011.**
(Bydd angen cwblhau prosiectau erbyn 30 Ebrill 2012).

Prif bwrpas fydd creu neu uwchraddio cyfleusterau cymunedol e.e. neuaddau pentref, canolfannau cymunedol ayb ar gael i'r gymuned gyfan, neu eu haddasu i sicrhau mynediad cyfartal ar gyfer pobl anabl fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Bydd hefyd yn annog gweithgareddau sy'n gwella'r amgylchedd naturiol i bobl leol e.e. alotments, gerddi cymunedol, gwelliannau amgylcheddol i leoliadau strategol mewn trefi a phentrefi ayb.

Caniateir ceisiadau hyd at £2000 i bob mudiad (dibynnol ar gyllid), un cais y flwyddyn.
Ffurflen gais a chanllawiau llawn ar gael o Medrwn Môn ar 01248 724944.

Safle We Medrwn Môn (www.medrwnmon.org)

Mae safle we Medrwn Môn wedi'i ddiweddaru a gofynnwn i fudiadau a grwpiau i anfon manylion unrnhyw ddigwyddiadau y gallwn eu hysbysebu ar galendr ar ein safle we.

Gall aelodau presennol gofrestru ar y safle we i dderbyn gwybodaeth cyfyngedig ar weithgareddau Medrwn Môn. Gall rhai nad ydynt yn aelodau ymweld â'r wefan. Ewch i Ynglyn â ni - Aelodaeth i lawrlwytho ffurflen aelodaeth.

NEWYDDION CYLLIDO

RBS Sport for You

Bwriad y cynllun yw cefnogi clybiau chwaraeon sy'n chwarae rhan allweddol mewn cymdeithas, yn creu lle i ryngweithio cymdeithasol ac amgylchedd ble gall cenedlaethau gwahanol ddod at ei gilydd i fod yn fywiog a rhannu'r mwynhad o gymryd rhan mewn chwaraeon.
Uchafswm grant ar gael yw £1,000. Mae'n rhaid defnyddio'r grant er lles y clwb yn ei gyfanrwydd. Ni ellir ei wario ar unigolion. Ymgeiswyr cymwys fydd clybiau chwaraeon amatur yn seiliedig yn y DU
Croesawir ceisiadau gan glybiau chwaraeon ar ôl ysgol yn cael eu rhedeg gan rieni neu eraill ar sail wirfoddol.
Gwefan:http://www.telegraph.co.uk/sport/othersports/amateur/8283288/Amateur-sports-club-grant-entry-form.html

---

Ymddiriedolaeth Elusennol Woodward

Mae'r Ymddiriedolaeth yn anelu i gefnogi mentrau elusennol lleol yn y DU – cynigir y mathau gwahanol yma o gyllid:

- **Grantiau bach o rwng £100 a £5,000** (gwneir tua 80 grant pob blwyddyn)
- **Grantiau mawr o dros £5,000** (gwneir tua 5 grant pob blwyddyn)
- **Grantiau i gynlluniau chwarae Haf o rwng £500 a £1,000** (gwneir tua 30 grant pob blwyddyn)

Cyllid yn bennaf tuag at brosiectau unwaith ac am byth, ond mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon ystyried cyllido costau rhedeg, yn cynnwys costau craidd a chyflogau. Croesawir ceisiadau gan elusennau cofrestredig yn y DU efo trosiant blynyddol o lai na £300,000.
Derbynnir ceisiadau ar gyfer cynlluniau chwarae haf gan elusennau cofrestredig yn y DU efo trosiant blynyddol o lai na £100,000 Mae'r elusen â diddordeb arbennig mewn helpu elusennau bychan.
E-bost: contact@woodwardcharitabletrust.org.uk Ffon: 020 7410 0330
Gwefan: http://www.woodwardcharitabletrust.org.uk/index.html

Wilkinsons – Helping Hands

'Helping Hands' – menter gymunedol newydd ble clustnodwyd cyllid i bob siop i'w ddosbarthu i brosiectau a chynlluniau oddi fewn i ardal gymuned y siop.
I ymgeisio am gyfraniad o'r gronfa Helping Hands ymwelwch â'ch siop leol i bigo fyny ffurflen gais. Gwelir y rhain ar yr hysbysfyrddau coch, neu os na allwch eu gweld gofynnwch am gymorth wrth y ddesg gwasanaeth cwsmer. Cyfeiriwch bob cais am gyfraniad i'ch siop leol, ni ellir cyflawni hyn o'r Brif Swyddfa. Am fwy o wybodaeth ymwelwch â
www.corporate.wilkinsonplus.com/story.asp

NEWYDDION COMISIWN ELUSENNAU

Taliadau a threuliau ymddiriedolwyr

Gall taliadau a threuliau ymddiriedolwyr fod yn bwnc dryslyd ond yn un y mae ymddiriedolwyr yn amlwg am gael yn gywir. Mae'r erthygl hon yn bwrw golwg byr ar y pwnc. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, gweler canllaw y Comisiwn CC11: Treuliau a thaliadau ymddiriedolwyr

Treuliau

Gall ymddiriedolwyr elusen hawlio treuliau ac nid oes rhaid i hwn gael ei awdurdodi yn nogfen lywodraethol yr elusen neu gan y Comisiwn. Fodd bynnag, argymhellir bob amser bod polisi treuliau ysgrifenedig gan elusennau y mae pob un o'r ymddiriedolwyr yn ei ddeall.

Taliadau ymddiriedolwyr

Er mwyn talu ymddiriedolwr, mae'n rhaid cael awdurdod. Gall yr awdurdod hwn gael ei nodi yn nogfen lywodraethol yr elusen, gall fod yn bŵer statudol neu gall y Comisiwn Elusennau ei roi.

Felly, y cam cyntaf yw ystyried pa fath o daliad gaiff ei wneud.

Ydy'r elusen yn talu neu cyflogi ymddiriedolwr am wasanaeth?

Talu ymddiriedolwyr am nwyddau a gwasanaethau

Efallai na fydd dogfen lywodraethol yr elusen yn cynnwys unrhyw gymalau ar daliadau ymddiriedolwyr neu efallai ei bod yn datgan bod modd rhoi taliadau gyda chydsyniad y Comisiwn. Yna gallwch chi ddibynnu ar y pŵer statudol i dalu ymddiriedolwyr am nwyddau a gwasanaethau. Nid oes angen cael cydsyniad y Comisiwn i wneud y taliad hwn ond mae'n rhaid bodloni rhai amodau.

Os yw dogfen lywodraethol yr elusen yn datgan na all unrhyw daliadau gael eu gwneud i'r ymddiriedolwyr, ni allwch ddibynnu ar y pŵer hwn i dalu ymddiriedolwyr am nwyddau a gwasanaethau. Efallai y gallwch chi newid eich dogfen lywodraethol ac mae canllawiau ar wefan y Comisiwn ar y mater hwn.

Cyflogi ymddiriedolwr

Os yw dogfen lywodraethol yr elusen yn datgan bod modd i'r elusen gyflogi ymddiriedolwr, nid oes angen cael cydsyniad y Comisiwn ar gyfer y gyflogaeth. Fodd bynnag, gall y ddogfen lywodraethol ddatgan bod angen cael cydsyniad y Comisiwn a bydd rhaid i chi wneud cais am hwn drwy ffurflen ar-lein.

Weithiau bydd y ddogfen lywodraethol yn datgan nad oes modd talu ymddiriedolwyr elusen. Unwaith eto, efallai y gallwch chi newid eich dogfen lywodraethol ac mae canllawiau ar wefan y Comisiwn ar y mater hwn.

Ffurflen ar-lein ar gyfer taliadau a threuliau ymddiriedolwyr

Mae ffurflen ryngweithiol ar-lein newydd gan y Comisiwn ar gyfer pob math o daliadau ymddiriedolwyr. Mae'r ffurflen hon yn eich tywys drwy nifer o gwestiynau i chi gael gwybod a allwch dalu ymddiriedolwr. Ar y diwedd, cewch wybod a oes angen cydsyniad y Comisiwn i roi'r taliad a gofynnir i chi anfon y ffurflen. Fodd bynnag, os nad oes angen cydsyniad y Comisiwn fe gewch dystysgrif i'w hargraffu a fydd yn rhoi sicrwydd i'r elusen bod y taliad yn gyfreithlon. Mae dolen i'r ffurflen i'w gweld isod.

http://www.charitycommission.gov.uk/welsh/Manage_your_charity/making_payments.aspx

NEWYDDION COMISIWN ELUSENNAU

Gweithredu er lles gorau'r elusen
Pan fydd elusennau'n talu ymddiriedolwyr mae'n rhaid iddyn nhw ystyried a yw'r taliad er lles gorau'r elusen. Mae'n bwysig i reoli, a chael eich gweld eich bod yn rheoli'r gwrthdaro buddiannau sy'n codi drwy fod yn agored ac yn atebol i'r rhai sydd â budd yn yr elusen. Gweler hefyd canllaw'r Comisiwn ar wrthdaro buddiannau.

Ffurflen gofrestru ar-lein argraffadwy - gan Y Comisiwn Elusennau
Cynhaliwyd nifer o ymweliadau â swyddfeydd Cynghorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru yn ddiweddar gyda'r nod o geisio cael dealltwriaeth well o'r materion rydych yn eu hwynebu yn eich gwaith gydag elusennau. Yn ystod yr ymweliadau hyn cawsom nifer o geisiadau i gynnwys cyfleuster ar ein gwefan i argraffu copi o'r ffurflen gofrestru ar-lein.
Dywedwyd wrthym pe byddai'r cyfleuster hwn ar gael byddai Swyddogion Datblygu yn gallu arwain ymddiriedolwyr drwy'r broses. Hefyd byddai'n golygu eich bod chi'n gallu dweud wrth ymddiriedolwyr pa wybodaeth sydd ei hangen arnynt pan fyddant yn dod i'ch swyddfeydd i geisio cofrestru eu helusen yno.
Gallwch gael fersiwn argraffadwy o'r ffurflen gofrestru ar-lein a'r canllawiau atodol yn:
http://www.charitycommission.gov.uk/Start_up_a_charity/Register_a_new_charity/Specimen_forms.aspx

Statws elusennol

Efallai eich bod chi'n meddwl bod rhaid i bob elusen neu fudiad gwirfoddol gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennol, a bod eich sefydliad yn troi'n elusen pan fyddwch yn cofrestru gyda'r Comisiwn.
Y gwir amdani yw nad yw pob mudiad gwirfoddol yn elusen, ac nid oes rhaid i rai elusennau gofrestru.
Mae cannoedd ar filoedd o fudiadau gwirfoddol yn y DU, ond mae llai na 180,000 yn elusennau sydd wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau.

Mae hyn oherwydd:

- nid yw cofrestru yn golygu bod sefydliad yn elusen - rhaid iddo fod yn elusen eisoes
- gall sefydliad fod yn elusen dim ond os oes ganddo nodau sydd er budd y cyhoedd
- nid oes rhaid i rai sefydliadau sy'n elusennau gofrestru, neu nid oes hawl ganddynt gofrestru - er enghraifft, os ag incwm sy'n llai na £5,000 y flwyddyn

Gallwch brofi bod eich elusen yn elusen go iawn heb i chi gael eich cofrestru gyda'r Comisiwn drwy wneud cais i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) am ostyngiad treth. Yn yr un modd â rhif elusen gofrestredig, gallwch ddefnyddio rhif elusen HMRC fel tystiolaeth o'ch statws elusennol.

NEWYDDION CYLLIDO

Ymddiriedolaeth Wakeham

Mae Ymddiriedolaeth Wakeham yn darparu grantiau i helpu pobl ailgodi eu cymunedau. Maent â diddordeb arbennig mewn prosiectau cymdogaeth, prosiectau celf gymunedol, prosiectau yn ymwneud a gwasanaeth yn y gymuned gan bobl ifanc, neu brosiectau a gychwynnir gan rai sydd wedi ei heithrio'n gymdeithasol.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cefnogi prosiectau arloesol i hyrwyddo rhagoriaeth mewn dysgu (ar unrhyw lefel o Ysgolion Cynradd i Brifysgolion) er byth yn cefnogi unigolion. Maent yn dymuno ail danio'r rhannau hynny na all ffynonellau cyllid eraill gyrraedd yn arbennig syniadau newydd ac achosion amhoblogaidd.

Maent yn ffafrio prosiectau bach, ond nid unrhyw faes arbennig. Y ffordd orau i ddeall pa fath o brosiectau a gyllidir yw ymweld â'u gwefan fel y manylir isod allwch ymgeisio am grant unai trwy ysgrifennu llythyr neu trwy lenwi mewn ar-lein o'u gwefan. Os oes gennych ddewis ffafrir ceisiadau ar-lein

Cyswllt: Ymddiriedolaeth Wakeham
Wakeham House, Rogate, Petersfield, Hants, GU31 5EJ

Ymddiriedolaeth Elusennol Bernard Sunley

Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu grantiau i elusennau cofrestredig yn unig efo mwyafrif o'r grantiau o dan £10,000, efo mwy o'r grantiau wedi eu cyfeirio at gynorthwyo prosiectau cymunedol, y dan anfantais a ble mae yna ffocws ar faterion amgylcheddol.

Ceisiadau ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr:
Manylion cyswllt: Ymddiriedolaeth Elusennol Bernard Sunley
20 Berkeley Square, London, W13 6LH
Ffôn: 020 7408 2198 E-bost: office@sunleyfoundation.com

Ymddiriedolaeth Austin a Hope Pilkington

Mae Ymddiriedolaeth Austin a Hope Pilkington yn dyfarnu grantiau i fudiadau elusennol. Maent yn croesawu ceisiadau am brosiectau oddi fewn i'r meysydd canlynol am y tair blynedd nesaf:

2012 – Cymunedol – Dyddiad cau ceisiadau: 1af Mehefin a 1af Tachwedd 2012
2013 - Plant, Ieuenctid, Henoed; Meddygol - Dyddiad cau ceisiadau:
1af Mehefin a 1af Tachwedd 2013.

Grantiau fel arfer rhwng £1,000 a £10,000 mwyafrif o'r ceisiadau o £5,000 neu lai. Dyfarnir grantiau am flwyddyn yn unig.

E-bost: admin@austin-hope-pilkington.org.uk
Gwefan: http://www.austin-hope-pilkington.org.uk

GWYBODAETH

Mae Prosiect Gweddnewid Cludiant Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio ag ymgynghorwyr WYG dros y flwyddyn ddiwethaf yn adolygu gwasanaeth cludiant teithwyr ar draws y rhanbarth, yn cynnwys cartref i'r ysgol (prif lif, ar ôl 16, ac Anghenion Arbennig) cludiant gwasanaethau cymdeithasol a'r rhwydwaith bysus cyhoeddus lleol.

Bydd y prosiect yn dirwyn i ben dros y misoedd nesaf, a gwnaed argymhellion eang ynglŷn â pholisïau, cynllunio, pwrcasu a rheolaeth. Datblygir yr argymhellion hyn i'w gweithredu, fydd o ganlyniad ag enillion ariannol sylweddol yn ogystal â gwella gwasanaeth.

Dros yr wythnosau diwethaf mae WYG wedi cychwyn gwaith ochr yn ochr yn edrych ar batrymau cludiant cyhoeddus presennol yn y rhanbarth.
Y nod yw cynhyrchu Achos Busnes i ddatblygu strwythur Rhanbarthol i ddatblygu ac ehangu sector cludiant cyhoeddus drwy'r rhanbarth, Bydd yn helpu cynlluniau presennol i ddatblygu a thyfu, ble'n briodol, yn ogystal ag adnabod darpariaeth newydd i lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.

Mae'r Ymgynghorwyr yn awyddus i glywed gennych ynglŷn â Gwasanaeth Cludiant Cyhoeddus yn eich ardal, **beth yn eich barn chi a beth yw'r bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth presennol.**
Bydd y wybodaeth yma yn fewnbwn pwysig i ddatblygu Strategaeth Cludiant Cyhoeddus Rhanbarthol.

Os dymunwch leisio eich barn ar y mater, maent yn awyddus i glywed eich barn trwy e-bost (cyn 12fed Rhagfyr).

Anfonwch eich argymhellion at: mowbrayconsultancy@gmail.com

Age UK

Mae grantiau Age UK i fudiadau yn gweithio efo pobl hyn fel maent yn mynd yn hyn. Mae'n rhaid i fudiadau sy'n derbyn grant fod a chyfansoddiad annibynnol, ddim heb elw ac o fewn cyrraedd pawb o bobl hyn fel maent yn mynd yn hyn.

Mae Age Uk yn dosbarthu miliynau o grantiau bob blwyddyn. Maent hefyd yn dosbarthu cyllid y llywodraeth a'r loteri genedlaethol i brosiectau lleol pan fydd cyllid ar gael.

Am fwy o wybodaeth ar eu rhaglenni grantiau presennol sy'n agored i geisiadau, cysylltwch â nhw trwy'r wefan, http://www.ageuk.org.uk/professionalresources/
grants/#AgeUKgrants neu ffoniwch Age UK am ddim ar 0800 169 8787.

GWYBODAETH

Bargeinion Ynni Gorau - ar gael o 1 Rhagfyr 2011!

Gweithdy addysgiadol 90 munud, am ddim, diduedd a rhyngweithiol

Mae Bargeinion Ynni Gorau yn sesiynau hwyliog, gwybodus ac **amserol** i helpu pobl ddeall sut i gael mynediad at fargeinion rhatach ar eu biliau tanwydd, sut i gymharu â newid darparwyr ynni, deall am restr prisiau, cynlluniau grantiau a chynlluniau i helpu'r rhai hynny sy'n ei chael yn anodd efo dyledion biliau gwasanaeth.

Byddant yn cynnal y sesiwn am ddim os oes gennych grŵp o rhwng 8-10 o bobl. Cysylltwch â Jayne Bellis neu Gail Roberts yng Nghyngor Gwirfoddol Fflint - maent yn gweithio ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Ebost: ymholiadau@pennysmart.org.uk Ffôn: 01352 744078

Pwyllgor Cyswllt Sector Wirfoddol a gynhaliwyd 21 Hydref 2011

Eitemau agenda a drafodwyd ers cyfarfod Mehefin oedd: comisiynu corfforaethol, polisi gwirfoddoli corfforaethol ac ymglymiad trydydd parti mewn sgriwtini. Cyflwynwyd papur ynglyn â blaenoriaethau'r Cyngor Sir hefo'r bwriad o gael sylwadau'r sector.

Cadarnhawyd model newydd o bartneriaethau gan Fwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru a'r chwech Awdurdod Lleol Gogledd Cymru. Rhagwleir i'r strwythur olygu sefydlu un Bwrdd Gwasanaeth Strategol i Ynys Môn a Gwynedd hefo pwyslais ar weithredu lleol.

Derbyniwyd cytundeb Compact Blynyddol Arolwg WCVA ar sut i wella cysylltiadau hefo'r Sector Iechyd yn dilyn sefydlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ardal Gogledd Cymru.

Cytunwyd ei bod yn amserol i adolygu a chyflwyno strwythur y Pwyllgor Cyswllt ac i'r Cadeirydd, John R Jones a'r Aelod Portffolio Cysgodol dros Wasanaethau Cymdeithasol i gyfarfod â Chadeirydd Model Môn i ystyried sut all y Pwyllgor Cyswllt a'r Compact gefnogi Model Môn i ddatblygu'r broses mewn ffordd anffurfiol a chreadigol.

Trafodwyd strategaethau cysylltiol ar sut mae'r Cyngor yn cysylltu â'r cyhoedd, ei berthynas â'r gymuned leol ac annog aelodau o'r cyhoedd yn eu niferoedd i ystyried gwasanaethu fel Cynghorwyr Sir. Mae'r Comisiynwyr yn awyddus i ddatblygu'r maes yma o waith ac i gychwyn trafodaeth â'r trydydd sector yn arbennig mewn materion sgriwtini.

Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 2pm, dydd Iau, 19 Ionawr 2012 ym Marianglas.

EIN CYFEIRIAD YW:
Uned 5c, Parc Diwydiannol Bryn Cefni
LLANGEFNI
Ynys Môn LL77 7XA
Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149
E-bost: post@medrwnmon.org
Safle We: www.medrwnmon.org